



Living & Learning  
Dysgu i Dyfu

# Living Scripture Ysgrythur Fyw



ATHROFA PADARN SANT  
ST PADARN'S INSTITUTE



Mae'r modiwl hwn yn archwilio sut mae Duw yn ei ddatguddio ei hun ac yn cael ei ddatguddio trwy'r Ysgrythurau ac yn archwilio'r ffyrdd mae Gair Duw yn gallu siarad yn fwyaf effeithiol â ni a'n heglwys heddiw.

Mae Eglwys i'r Gymuned Anglicanaidd bob amser wedi adnabod y rhan ganolog mae'r ysgrythur yn ei chwarae yn eu bywyd a'u tystiolaeth. Gellir gweld hyn yn glir yn ein ffurfiaduron hanesyddol. Dywed y 'Deugain Erthygl namyn Un' fod yr 'Ysgrythyr Lân yn cynnwys pob peth angenrheidiol i Iachawdwriaeth:' Dywed Canon A5 fod athrawiaeth wedi'i 'seilio ar yr Ysgrythur Lân, ac ar y cyfryw ddysgeidiaeth gan y Tadau hynafol a Cynghorau'r Eglwys ag sydd yn cytuno â'r ysgrythurau a nodwyd'. Yn ogystal, mae'r rhagair i'r 'Datganiad o Gydsyniad', a ddarllenir pryd bynnag y bydd offeiriaid neu ddiaconiaid yn cael eu derbyn i'w gweinidogaeth o fewn yr Eglwys, yn honni fod ein heglwys yn proffesu'r ffydd 'sy'n cael ei datguddio mewn modd unigryw yn yr Ysgrythur Lân'.<sup>1</sup> Hefyd yn sefyll o fewn y traddodiad hwn, mae Pedrochrog Chicago-Lambeth 1886-88 yn cadarnhau mai'r ysgrythurau yw 'mesur eithaf ffydd'.<sup>2</sup>

Gan fod yr ysgrythur yn ganolog i'r eglwys, mae hi'n ganolog hefyd i genhadaeth a gweinidogaeth yr eglwys ac i dwf pob Cristion wrth iddo ddatblygu fel disgybl. I ddiwinyddiaeth Gristnogol, i'r astudiaeth o Dduw ac o fywyd Dyn, ac i'r creu yng ngoleuni datguddiad Duw yn Iesu, yr ysgrythur yw'r man cychwyn ac mae'n ymgysylltu o'r newydd o hyd â'i threftadaeth ysgrythurol. Felly gorchwyl ddiwinyddol gyntaf gweinidogion a disgyblion Cristnogol, wrth inni geisio dyfodol Duw i'n heglwys gyda'n gilydd, yw cael ein cyfoethogi'n llawnach gan Air Duw.

Er bod yr ysgrythur yn ganolog ac er y rhoddir i'r ysgrythur statws cyfrwng datguddiad, nid oes yn unlle yn y ffurfiaduron nac yn yr erthyglau ffydd unrhyw ddamcaniaeth arbennig o ddatguddiad nac o ysbrydoliaeth feiblaidd. Yn wir, mae'n glir nad yw'r ysgrythurau ar eu pen eu hunain yn lasbrint ar gyfer addoliad, bywyd a strwythur yr eglwys a all gael ei ddarllen a'i roi ar waith. Mae i reswm a thraddodiad hwythau eu rhan i'w chwarae. Yn wir, yn ei bennod 'Keeping Faith with Anglicanism', mae Paul Avis yn cydnabod bod ein ffurfiaduron 'i bob golwg yn rhoi cryn gyfle i ddehongli ac archwilio, cyn belled ag nad yw ein ffyddlondeb sylfaenol i'n treftadaeth ysgrythurol, ein credoau a'n ffurfiaduron hanesyddol yn cael ei erydu'.<sup>3</sup>

Dyluniwyd y cwrs hwn i helpu'r myfyrwyr i fynd i'r afael â'r broses archwilio hon. O'r ysgrythur y daw'r cwestiynau sydd yn ysgogi'r gwaith i bob sesiwn ac mae'r materion anodd, cymhleth a heriol yn aml mae'r cwrs yn dod ar eu traws wedi eu gwreiddio yn ein cred gyffredin mai 'Gair Duw' yw'r ysgrythur. Fodd bynnag, fe'i gwreiddiwyd hefyd yn y traddodiad fod ysgolheictod cadarn a gofalus yn gallu goleuo'r 'Gair' hwn ac y bydd rhaid wrth y meddwl, y galon a'r ysbryd i ddod i bresenoldeb Duw trwy'r ysgrythur.

# About the Course

---



This module explores how God reveals and is revealed through the scriptures and examines ways in which God's Word can speak most effectively to us and our church today.

The Anglican Communion Churches have always recognised the central part that scripture plays in their life and witness. This can be clearly seen in our historical formularies. The 'Thirty-Nine Articles of Religion' state that 'Holy Scripture containeth all things necessary to salvation'. Canon A5 states that doctrine is 'grounded in the Holy Scriptures, and in such teachings of the ancient Fathers and Councils of the Church as are agreeable to the said scriptures'. Further, the Preface to the 'Declaration of Assent', read whenever bishops, priests or deacons are admitted to their ministry within the Church, claims that our church professes the faith 'uniquely revealed in the Holy Scriptures'.<sup>1</sup> Also standing within this tradition, the Chicago-Lambeth Quadrilateral of 1886-88 upholds the scriptures as 'the rule and ultimate standard of faith'.<sup>2</sup>

As scripture is central to the church, so it is central to the mission and ministry of the church and the growth into discipleship of all Christians. Christian theology, the study of God and of human life and creation in the light of God's revelation in Jesus, takes scripture as its starting point and is constantly re-engaging with its scriptural heritage. Therefore, the first theological task of Christian ministers and disciples, as we seek together God's future for our church, is to become more fully enriched by the Word of God.

Although scripture is central and is afforded the status of the vehicle of revelation, there is nowhere in the formularies or articles of faith any particular theory of revelation or of biblical inspiration. Indeed, it is clear that the scriptures on their own do not give a blueprint for the worship, life or structure of the church which can simply be read and implemented. Reason and tradition also have their part to play. Indeed, in his chapter 'Keeping Faith with Anglicanism', Paul Avis recognises that the formularies 'seem to give considerable scope for interpretation and exploration, provided that our fundamental loyalty to the inheritance of scripture, creeds and historic formularies is not eroded'.<sup>3</sup>

This Course is designed to help students engage in this process of exploration. The questions which stimulate the work for each session come from scripture and the difficult, complex and often demanding issues that the course encounters are grounded in our common belief that scripture is the 'Word of God'. However, it is also grounded in the tradition that sound and careful scholarship can illuminate this 'Word' and that an encounter with God through scripture will require an engagement with mind, heart and spirit.



# Stori'r Beibl: Yr Hen Destament

## Cyn y Sesiwn

---

1. Darllenwch y Cyflwyniad
2. Edrychwch yn ofalus trwy'r rhestr o lyfrau sydd yn ffurfio'r Hen Destament. Fel arfer byddwch yn gallu dod o hyd i un yn nheu blaen y beibl. Nodwch y llyfrau rydych chi'n eu hadnabod yn dda, pa rai rydych chi'n gwybod ychydig amdany'n nhw ac unrhyw rai nad ydych erioed wedi'u darllen.
3. Nodwch y straeon allweddol a adroddir yn yr Hen Destament.
4. Nodwch un stori sydd wedi bod yn arbennig o bwysig i chi ar siwrnai eich ffydd.



# The Story of the Bible: The Old Testament

## Before the Session

---

1. Read the Introduction.
2. Look carefully through the list of books that make up the Old Testament. You can usually find one in the front of a bible. Identify which books you know well, which you know a little about and any that you have never read.
3. List key stories that are told in the Old Testament.
4. Identify one story that has been particularly important to you on your journey of faith.



Un o'r problemau sydd yn ein hwynebu pan ddarllenwn yr ysgrythurau yw eu bod yn dod atom yn yr un gyfrol hon sy'n dwyn y teitl 'Y Beibl Cysegr-Lân' ac un rhan iddi â'r teitl 'Hen Destament' a'r llall â'r teitl 'Testament Newydd'. Daw'r beibl mewn amrywiaeth o gyfieithiadau mewn Saesneg neu yn Gymraeg. Erbyn hyn wrth gwrs gallwch ddarllen y beibl ar-lein neu ei lawrlwytho ar eich tabled.

Ym mhob ffordd mae'r beibl yn ei gyflwyno ei hun i ni fel stori sydd yn dechrau yn y dechrau ac yn gorffen ar y diwedd. Felly fe fyddai'n hawdd dychmygu fod llyfrau'r beibl yn eu trefn, eu bod wedi eu cyflwyno yn nhrefn eu hysgrifennu, fod un awdur i bob llyfr, eu bod wedi eu hysgrifennu i'w darllen, a bod pob awdur yn ymwybodol ei fod yn cyfrannu at gasgliad a fyddai'n cael ei adnabod fel 'Gwrit Sanctaidd'.

Mewn gwirionedd, cafodd y 39 o lyfrau sy'n ffurfio'r Hen Destament eu llunio dros gyfnod o 700 mlynedd. Dechreuodd y rhan fwyaf o'r deunydd ei fywyd mewn ffurf lafar a draddodwyd o'r naill genhedlaeth i'r llall ar lafar. Byddai hefyd yn wir dweud na chafodd llawer o'r llyfrau i raddau helaeth eu hysgrifennu gan un awdur. Yn hytrach, fe dderbynion nhw 'siâp' dros gyfnod o amser ac maent yn dwyn marciau ysgrifbin mwy nag un awdur. Ysgrifennwyd y llyfrau mewn amrywiaeth o ffurfiau llenyddol, gan gynnwys naratif, barddoniaeth, cyfraith, caneuon, galarnad, hanes, dywediadau diarhebol, damhegion, gweddiâu a litwrgi.

Daw'r llyfrau o amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol iawn i'w gilydd ac o'r herwydd adlewyrchant yr amrywiaeth o ffyrdd yr oedd pobl yn deall eu ffydd a'r Duw yr oeddent yn ei addoli. Fodd bynnag, cred ysgolheigion na chyrrhaeddodd llawer o'r llyfrau eu ffurf derfynol nes i bobl Israel gael eu caethgludo i Fabilon yn 586 CC. Gwnaeth sioc colli eu tir a'u teml i'r bobl ailystyried eu hysgrifeniadau a'r traddodiadau a oedd wedi dod i lawr atyn nhw a'u hel at ei gilydd yn gorff ysgrifenedig. Yr oedd, os mynnwch chi, yn ffordd o 'ganu cân yr Arglwydd mewn tir estron' (Salm 137:4).

Er ein bod yn trefnu ein beibl yn llyfrau, penodau ac adnodau, a chyfeirio atyn nhw fel hynny (e.e. Exodus pennod 4 adnodau 3 i 10, a ysgrifennir fel arfer fel Exodus 4: 3-10) byddai ysgrifeniadau'r Hen Destament wedi'u hysgrifennu ar sgröliâu, heb y dynodiadau hyn, a'u copïo yn ofalus â llaw. Ychydig fyddai'n cael darllen y sgröliâu ac ni fyddai'r mwyafrif o'r Israeliaid yn gallu darllen. Felly, doedd geiriau'r ysgrythurau ddim wedi'u bwriadu i'w darllen ond i'w clywed a bod yn hawdd eu cofio, ac mae hyn wedi dylanwadu ar y ffordd y cafodd llyfrau eu cynllunio a'u hysgrifennu.

Ac wrth gwrs rydyn ni'n darllen geiriau a gafodd eu siarad a'u hysgrifennu mewn nifer o ieithoedd hynafol, eu cyfieithu i'r Hebraeg ac wedyn i Roeg a Lladin. Dim ond ers y Diwygiad Protestannaidd y bu'r beibl ar gael yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Ac erbyn hyn mae'n cael ei gyfieithu i bob iaith yn y byd bron iawn. Ac er bod llawysgrifau o lyfrau'r Hen Destament mewn bodolaeth heddiw o'r cyfnod cyn Iesu, does dim testunau gwreiddiol i fynd yn ôl atynt. Copïau o gopïau ydy hyd yn oed y llawysgrifau mwyaf hynafol.

Mewn gwirionedd, mae pobl yr Hen Destament yn perthyn i ddiwylliant hynafol oedd yn esblygu, gyda'i arferion, credoau ac iaith gwahanol iawn i'n rhai ni. A dyma pam, wrth i'r cwrs ddatblygu, yr edrychwn yn fanwl at y ffyrdd mae ysgolheigion wedi ceisio deall a dehongli'r ysgrythurau, a sut a gallai'r ymdrechion hyn ein helpu ni heddiw.

Er bod ein beibl Cristnogol yn galw'r casgliad hwn o lyfrau yn 'Hen Destament,' yr Ysgrythurau Iddewig ydyn nhw hefyd, wrth gwrs. Roedd Iddewiaeth yn rhannu'r Ysgrythurau Hebraeg yn dair rhan, y 'Torah', sy'n golygu'r gyfraith neu'r ddysgeidiaeth, y 'Nebim', y 'Proffwydi' wedi eu rhannu yn Broffwydi Blaenorol a'r Proffwydi Diweddarach a'r 'Ketubim' neu 'Ysgrifeniadau/llên'. Mae'r debyg bod y syniad o'r Torah fel 'set' yn glir erbyn y 4edd ganrif CC a'r proffwydi erbyn 180 CC er ei bod braidd yn ddyrys gan for awdurdon lalwer o'r ysgrifeniadau (megis Dafydd) hefyd yn cael eu gweld fel proffwydi!. Gan hynny, yn y Testament Newydd fe gyfeirir yn aml at yr Hen Destament cyfan fel 'y Gyfraith a'r Proffwydi'. Yn sicr, tua chyfnod Iesu roedd y



One of the problems that faces us when we read the scriptures is that they come to us in one volume entitled 'The Holy Bible' with a section marked 'Old Testament' and another marked 'New Testament'. The bible comes in a variety of translations in English or in Welsh. Now of course you can read the bible online or download it onto your tablet.

In every way the bible presents itself to us as a story that starts at the beginning and finishes at the end. It would therefore be easy to imagine that the books of the bible are in sequence, that they are presented in the order in which they were written, that there was one author for each book, that they were written to be read, and that each author was aware that he was contributing to a collection that would be known as 'Holy Writ'.

In truth, the 39 books that make up the Old Testament were constructed over a period of 700 years. Most of the material began life in an oral form which was passed on from one generation to another through word of mouth. It would also be true to say that many of the books were not, by and large, written by a single author. Rather, they 'took shape' over a period of time and bear the marks of more than one author's pen. The books were written in a variety of literary forms, including narrative, poetry, law, song, lamentation, history, proverbial sayings, parables, prayers and liturgy.

The books come from a variety of widely differing contexts and therefore reflect a variety of ways in which the people understood their faith and the God they worshipped. However, scholars believe that many of the books did not reach their final form until the people of Israel were taken into exile in Babylon in 586 BC. The shock of losing their land and their temple made the people revisit the writings and the traditions that had come down to them and to collect them together as a written corpus. It was, if you like, a way of 'singing the Lord's song in a strange land' (Psalm 137:4).

Although we organise our bible into books, chapters and verses, and reference them as such (e.g. Exodus chapter 4 verses 3 to 10, normally written as Exodus 4: 3-10) the writings of the Old Testament would have been written on scrolls, without these designations, and copied carefully by hand. Few would have access to the scrolls and the majority of Israelites would not be able to read. Therefore, the words of the scriptures were not designed to be read, but to be heard and easily memorised, and this has influenced the way in which the books were both constructed and written.

And of course, we are reading words that were spoken and then written in a number of ancient languages, translated into Hebrew and then into Greek and Latin. Only since the Reformation has the bible been available in English and in Welsh. Now it is translated into virtually every language on Earth. And, although there are manuscripts of Old Testament books in existence today from before the time of Jesus, there are no original texts to go back to. Even the most ancient manuscripts are copies of copies.

In truth, the Old Testament people belong to an ancient and evolving culture with customs, beliefs and language vastly different from our own. And this is why, as the course develops, we will look in detail at the ways in which scholars have attempted to understand and interpret the scriptures, and how these attempts may help us today.

Although our Christian bible calls this collection of books the 'Old Testament' they are also, of course, the Jewish Scriptures. Judaism grouped the Hebrew Scriptures into three sections, the 'Torah', meaning law or teaching, the 'Nebiim', the 'Prophets' (divided into the Former Prophets and the Latter Prophets) and the 'Ketubim' or 'Writings'. The idea of the Torah as a 'set' was probably clear by the 4th century BC and 'the prophets' by 180 BC, although it is a bit confusing since the authors of much of the writings (such as David)



diffiniad o'r Hen Destament cyfan (sef yr hyn oedd ynddo) wedi dod yn glir (a dyna pam na fyddwn byth yn gweld dadleuon yng nghyfnod Iesu ynghylch yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr Hen Destament, er gwaetha'r holl ddadlau am ystyr yr Hen Destament.

Y broblem gyda'r dynodiad triphlyg hwn ydy bod y 'Proffwydi Blaenorol' yn cynnwys llawer o lyfrau hanes yr Hen Destament, fel Josua, Barnwyr, 1 & 2 Samuel ac 1 & 2 Brenhinoedd. O'r herwydd mae ysgolheigion Cristongol wedi tueddu i drefnu'r Hen Destament yn 4 rhan. Y rhain yw:

- i) **Y Pumlyfr** (y Gyfraith) sef llyfrau Genesis, Exodus, Lefiticus, Numeri and Deuteronomium. Yn y rhan hon mae naratifau a chyfreithiau, adrodd stori'r creu, y berthynas rhwng pobl yn chwalu, hynafiaid Israel, y Patriarchiaid, yr Exodus, y siwrnai trwy'r anialwch, rhoi'r gyfraith a'r cyfamod mae Duw yn ei wneud â'i bobl yn Sinai, ac yn gorffen gyda marwolaeth Moses a'r bobl ar fin mynd i mewn i Wlad yr Addewid.
- ii) **Y Llyfrau Hanesyddol** yn cynnwys llyfrau Josua, Barnwyr, Ruth, 1 & 2 Samuel ac 1 & 2 Brenhinoedd, 1 & 2 Cronicl, Esra, Nehemeia ac Esther. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrau wedi eu dosbarthu yn yr Ysgrythurau Hebraeg fel y 'Proffwydi Blaenorol' a'r 'Ysgrifeniadau' ond yn dweud stori mynediad Israel i Wlad yr Addewid, amseroedd y Barnwyr ac wedyn y Brenhinoedd, ymraniad y Deyrnas yn Ogledd a De, dinistr Teyrnas y Gogledd gan Asyria in 722 CC, caethglud Teyrnas y De i Fabilon yn 586 CC a dychweliad y bobl yn 539 CC, gan orffen gydag ailadeiladu'r Deml yn dilyn hynny.
- iii) **Y Proffwydi** yn cynnwys llyfrau Eseia (1af Eseia 1-39, 2il Eseia 40-55, 3ydd Eseia 55-66), Jeremeia, Galarnad, Eseciel, Daniel, Hosea, Joel, Amos, Obadeia, Jona, Micha, Nahum, Habacuc, Seffaneia, Haggai, Sechareia, Malachi. Llyfrau yw'r rhain a gysylltir â bywydau a phroffwydoliaethau proffwydi oedd yn byw ac yn gweithio o'r 8fed ganrif hyd y 6ed ganrif CC.
- iv) **Ysgrifeniadau** sy'n cynnwys llyfrau Job, y Salmau, Diarhebion, Ecclesiasticus a Chaniad Solomon. Llyfrau yw'r rhain sydd yn amrywiol o ran eu natur ac yn fyfyrion o ran cymeriad. Mae'r Ysgrythurau Hebraeg yn cynnwys, Galarnad, Esther, Daniel, Esra, Nehemeia a dau lyfr y Cronicl yn y categori hwn ac'r mae'r Beibl Catholig Rhufeinig yn cynnwys llyfrau sydd i'w cael yn y beiblau Protestannaidd yn yr Apocryffa.

Mae'n amlwg o'r Hen Destament fod y berthynas sydd gan y bobl â Duw yn ymestyn dros amser, ac yn wahanol i lawer o grefyddau hynafol, yn hanesyddol o ran cymeriad. Fodd bynnag, mae'n anodd bod yn glir pryd yn union yn hanes cynnar Israel y digwyddodd llawer o'r momentau hyn. Mae hi'n debygol fod y Patriarchiaid yn byw o gwmpas 1500 CC a bod modd dyddio'r Exodus i oddeutu 1200 CC. Gallwn fod yn sicrach i'r Frenhiniaeth gael ei sefydlu oddeutu 1000 CC, a gwyddom i sicrwydd i Deyrnas y Gogledd gael ei goresgyn yn 722 CC, i'r Gaethglud i Fabilon ddiwydd yn 586 CC a bod y bobl wedi dychwelyd yn 538 CC. Felly mae'n bosibl creu llinell amser y gall straeon a digwyddiadau'r Hen Destament ffitio i mewn iddi.

Ar un amser byddai ysgolheigion wedi ceisio ysgrifennu diwinyddiaeth yr Hen Destament. Mewn amseroedd diweddar sylweddolwyd bod natur amrywiol cymaint o'r llyfrau yn gwneud hynny'n anodd, os nad yn amhosibl. Yn hytrach na meddwl am un ddiwinyddiaeth i'r Hen Destament, mae ysgolheigion wedi tueddu i ganolbwyntio ar ddiwinyddiaeth gwahanol lyfrau a gwahanol gasgliadau o ysgrifeniadau, gan gydnabod bod llawer ffordd mae Duw yn cael ei ddeall a'i air yn cael ei ddehongli o fewn yr Hen Destament.

Y mae, fodd bynnag, nifer o themâu allweddol. Wrth wraidd yr Hen Destament mae'r syniad mai dewis bobl Duw yw Israel a bod Duw ac Israel, trwy'r cyfamodau a wnaed gyda Noa, Abraham a Moses, yn rhwym mewn perthynas arbennig. Un ffordd mae'r berthynas honno'n cael ei mynegi yw trwy feddiant y bobl ar wlad Canaan. Mae meddu ar y tir yn cyflawni addewid a wnaed i Abraham ac mae'n ganolog i hunaniaeth a lles y bobl.





were also seen as prophets! Therefore, in the New Testament the whole Old Testament is often referred to as 'the Law and the Prophets'. Certainly, around the time of Jesus the definition of the whole Old Testament (i.e. what was in it) had become clear (which is why for all the argument about what the Old Testament means, we never find arguments at the time of Jesus about what it contains).

The problem with this threefold designation is that the 'Former Prophets' include many of the history books of the Old Testament, like Joshua, Judges, 1 & 2 Samuel and 1 & 2 Kings. Therefore, Christian scholars have tended to organise the Old Testament into 4 sections. These consist of:

- i) The Pentateuch (the Law) comprising the books of Genesis, Exodus, Leviticus, Numbers and Deuteronomy. This section contains both narratives and laws, telling the story of creation, the breakdown of human relationships, Israel's ancestors, the Patriarchs, the Exodus, the journey through the wilderness, the giving of the law and the covenant God makes with his people at Sinai, and finishes with the death of Moses and the people on the verge of entering the Promised Land.
- ii) The Historical Books comprising the books of Joshua, Judges, Ruth, 1 & 2 Samuel and 1 & 2 Kings, 1 & 2 Chronicles, Ezra, Nehemiah and Esther. These include books that are classified in the Hebrew Scriptures as 'Former Prophets' and 'Writings' but tell the story of Israel's entry into the Promised Land, the times of the Judges and then the Kings, the division of the Kingdom into North and South, the destruction of the Northern Kingdom by Assyria in 722 BC, the exile of the Southern Kingdom to Babylon in 586 BC, and the return of the people in 539 BC, finishing with the subsequent rebuilding of the Temple.
- iii) The Prophets comprising the books of Isaiah (1st Isaiah 1-39, 2nd Isaiah 40- 55, 3rd Isaiah 55-66), Jeremiah, Lamentations, Ezekiel, Daniel, Hosea, Joel, Amos, Obadiah, Jonah, Micah, Nahum, Habakkuk, Zephaniah, Haggai, Zechariah, Malachi. These are books that are associated with the lives and prophecies of prophets who lived and worked from the 8th until the 6th century BC.
- iv) The Writings comprising the books of Job, Psalms, Proverbs, Ecclesiastes and the Song of Songs. These are books that are diverse in nature and reflective in character. The Hebrew Scriptures include Ruth, Lamentations, Esther, Daniel, Ezra, Nehemiah and Chronicles in this category and the Roman Catholic Bible includes books that are to be found in Protestant bibles in the Apocrypha.

It is clear from the Old Testament that the relationship that the people have with God extends over time, and unlike many ancient religions, is historical in character. However, it is hard to be clear exactly when many of these moments in Israel's early history may have occurred. It is likely that the Patriarchs could have been alive around 1500 BC and that the Exodus can be dated at around 1200 BC. We can be more certain that the Monarchy was founded around 1000 BC, and we know for certain that the Northern Kingdom was overrun in 722 BC, the Exile to Babylon occurred in 586 BC and the people returned in 538 BC. Therefore, it is possible to create a timeline into which the stories and events of the Old Testament can fit.

There was a time when scholars would have attempted to write a theology of the Old Testament. In recent times there has been a realisation that the diverse nature of many of the books makes that difficult, if not impossible. Rather than thinking about one theology for the Old Testament, scholars have tended to concentrate on the theology of different books and different collections of writings, recognising that there are many ways in which God is understood and his word interpreted within the Old Testament.

There are however a number of key themes. At the heart of the Old Testament is the idea that Israel is God's chosen people and that through covenants made with Noah, Abraham and Moses, God and Israel are bound



Ond mae'r berthynas hon â Duw yn dibynnu ar ufudd-dod y bobl i gyfraith Duw, a roddwyd iddyn nhw i fod yn safon yn erbyn yr hon y byddai'n bosib mesur eu hymddygiad. Roedd hi'n ofynnol eu bod yn byw yn gyfiawn a'u bod yn gofalu am y gwan yn eu cymdeithas ac am y diethryn oedd yn byw yn eu plith.

Yr Exodus, yr hanes yn olrhain y bobl yn dianc o'u caethiwed yn yr Aifft, oedd y digwyddiad yr ystyrir ei fod yn fan cychwyn y berthynas arbennig â Duw a rhoddi'r gyfraith trwy Moses. Ond cydbwyswyd hyn gan ddiwyddiad arall o arwyddocâd cyfartal, caethglud y bobl i Fabilion. Hwn oedd y digwyddiad arwyddocaol arall yn yr Hen Destament am ei fod yn adeg y colli mwyaf pan deimlai'r bobl eu bod wedi colli, nid yn unig y tir yr oedd Duw wedi ei roi iddyn nhw, ond eu bod wedi colli'r berthynas arbennig a oedd ganddynt ag ef fel ei 'ddewis bobl'.

Adegau diffiniadol yw'r ddwy hyn. Stori yw'r Exodus am ryddid oddi wrth gaethwasiaeth, sy'n arwain at Moses yn derbyn y gyfraith ac ymrwymo i gyfamod newydd â Duw. Mae'n cychwyn ffordd allweddol yn natblygiad y berthynas rhwng Duw a'r bobl wrth i'r Hen Destament fynd yn ei flaen. Cylch ydyw o wrthryfela a dychwelyd, hanes pechod Israel a maddeuant Duw.

Sut bynnag, dim ond oherwydd y Gaethglud y daeth yr Hen Destament i fod. Cafodd pobl o bwys y genedl i gyd eu cymryd yn orfodol i Fabilion. A thra oedden nhw yno, aethant ati i ateb y cwestiwn, 'Sut y gallai Duw adael i hyn ddiwydd?' Ac fe atebon nhw'r cwestiwn drwy roi at ei gilydd hanes Israel a gyrhaeddodd y casgliad mai gyda rheolwyr ac arweinwyr Israel y gorweddai'r bai, nid gyda Duw. Ac oherwydd eu caethglud ym Mabilon, fe sylweddolion nhw nad y gorau o blith llawer o dduwiau mo Dduw, duw tir Israel, ond yr unig Dduw, creawdwr nef a daear ac Arglwydd y cenedloedd a'r bobloedd i gyd. Ac fe gynhwyson nhw'r ddealltwriaeth newydd hon wrth ysgrifennu.

Mae hi'n debygol mai ychydig iawn o'r Hen Destament y bydd llawer o eglwyswyr wedi ei ddarllen. Bydd rhai wedi clywed un neu ddwy o'r straeon hyn yn yr Ysgol Sul, ac erbyn hyn mae gan nifer gynyddol o eglwysi wersi ar yr Hen Destament yn eu haddoliad dydd Sul, ond tameidiog fydd eu gwybodaeth. Fe awgrymwyd bod gan lawer o Gristnogion gasgliad eitha bach neu 'ganon' o ysgrythur maen nhw'n ei adnabod yn dda ac yn ei ddefnyddio'n rheolaidd ac mai ychydig iawn o hyn sy'n dod o'r Hen Destament. Golyga hyn y gall fod llawer o lyfrau yn yr Hen Destament na fydd nifer fawr o eglwyswyr erioed wedi dod ar eu traws.



in a special relationship. One way in which that relationship is expressed is through the people's possession of the land of Canaan. Possession of the land fulfils a promise made to Abraham and is central to the people's identity and wellbeing.

But this relationship with God relies on the people's obedience to God's law, given to them as a standard against which their behaviour could be measured. This required that they lived justly and cared for the weak in their society and for the foreigner who lived in their midst.

The Exodus, the story of the people's escape from slavery in Egypt, was the one single event that was seen to initiate the special relationship with God and the giving of the law through Moses. But this was balanced by another event of equal significance, the people's exile to Babylon. This was the other significant event in the Old Testament because it was a moment of supreme loss when the people felt that they had not only lost the land that God had given them, but had lost the special relationship that they had with him as his 'chosen people'.

These are both defining moments. The Exodus is a story about freedom from slavery, which leads to Moses receiving the law and entering into a new covenant with God. It initiates a key way in which the relationship between God and the people developed as the Old Testament progresses. It is a cycle of rebellion and return, the story of Israel's sin and God's forgiveness.

However, the Old Testament as we know it only came into existence because of the Exile. All the movers and shakers of the nation were forcibly removed to Babylon. And while they were there, they set about answering the question, 'How could God let this happen?' And they answered it by putting together a history of Israel that concluded that the fault lay, not with God, but with the rulers and leaders of Israel. And because of their exile in Babylon, they realised that God was not just the best of many gods, the god of the land of Israel, but the only God, creator of heaven and earth and Lord of all nation and peoples. And they included this new understanding in their writing.

It is likely that many churchgoers have read very little of the Old Testament. Some will have heard a few of these stories in Sunday school, and a growing number of churches now have Old Testament lessons in their Sunday worship, but knowledge can be patchy. It has been suggested that many Christians have quite a small collection or 'canon' of scripture which they know well and use regularly and that very little of this comes from the Old Testament. This means that there may be many books in the Old Testament that a large number of churchgoers have never encountered.



## Cyrraedd Ac Addoli

### Fel grŵp

1. Gadewch i bob person ei gyflwyno / chyflwyno ei hun yn gryno.
2. Bydd y tiwtor yn arwain y grŵp mewn addoliad.

## Prosiect 1

### Fel grŵp

1. Gan ddefnyddio darn mawr o bapur, neu sawl â'i gilydd, dechreuwch lunio llinell amser o stori'r Hen Destament fel a ganlyn:
  - Tynnwch linell ar draws y papur.
  - Nodwch y dechrau gyda'r teitl "Y Creu".
  - Ar y diwedd rhwch "Proffwyd yr Hen Destament (Malachi)" – 432CC
  - Chwarter ffordd ar hyd y llinell, rhwch, yr Exodus – 1200CC
  - Tuag at ddiwedd y llinell rhwch, Caethglud Teyrnas y De i Fabilon – 586CC
  - Nesaf rhwch y dyddiadau a ganlyn ar y llinell:
    - Saul yn cael ei wneud yn Frenin cyntaf Israel – 1000CC
    - Y Deyrnas yn cael ei rhannu yn ddwy – 931CC
    - Yr Asyriaid yn goresgyn Gogledd Israel – 722CC
    - Y bobl yn dychwelyd o Fabilon – 538CC
2. Gadewch i bob aelod o'r grŵp, gan ddefnyddio'r gwaith a baratowyd i'r sesiwn hwn, ddweud yn gryno eu hoff stori o'r Hen Destament. Ar ôl pob stori, gweithiwch gyda'ch gilydd i ychwanegu'r stori at y llinell amser a gwnewch yr un peth eto nes bod hoff stori pob person wedi cael ei lleoli.
3. Os bydd unrhyw un o'r storïau isod heb ei chynnwys, chwiliwch amdani mewn beibl ac ychwanegwch hi at y llinell amser.
  - Addewid Duw i Abraham (Gen 12:1-3)
  - Y Deg Gorchymyn a roddwyd i Moses (Ex 20:1-17)
  - Dafydd yn goresgyn Jerusalem (1 Cronicl 11:4-9)
  - Solomon yn adeiladu'r Deml (1 Brenhinoedd 6:1-13)
  - Eliseus yn iacháu Naaman (2 Brenhinoedd 5:1-15)
  - Amos yn pregethu yn Nheyrnas y Gogledd (Amos 1:1-2, 2:6-10)
  - Jeremeia yn pregethu yn Nheyrnas y De (Jer 1:1-8)
  - Mae'r alltudion yn dychwelyd ac yn ymgysgru o'r newydd i Dduw (Neh 8:1-12)



## Arrive and Worship

### As a group

1. Allow each person to briefly introduce themselves.
2. The tutor will lead the group in an act of worship.

## Project 1

### As a group

1. Using a large sheet of paper, or several joined together, start to construct a timeline of the Old Testament story as follows:
  - Draw a line across the paper.
  - Mark the beginning "The Creation".
  - Mark the end "The last Old Testament prophet (Malachi)" - 432BC
  - Mark, a quarter of the way along the line, the Exodus - 1200BC
  - Mark towards the end of the line, The Exile of the Southern Kingdom to Babylon - 586BC
  - Now mark the following dates on the line:
    - Saul made Israel's first King – 1000BC
    - Kingdom divided into two - 931BC
    - Assyrians conquer Northern Israel – 722BC
    - People return from Babylon - 538BC
2. Allow each member of the group, using the work prepared for this session, to tell briefly their favourite story from the Old Testament. After each story, work together to add the story to the timeline and repeat until each person's chosen story has been located.
3. If any of the stories below have not been included, look them up in a bible and add them to the timeline.
  - God's promise to Abraham (Gen 12:1-3)
  - The Ten Commandments given to Moses (Ex 20:1-17)
  - David conquers Jerusalem (1 Chronicles 11:4-9)
  - Solomon builds the Temple (1 Kings 6:1-13)
  - Elijah heals Naaman (2 Kings 5:1-15)
  - Amos preaches in the Northern Kingdom (Amos 1:1-2, 2:6-10)
  - Jeremiah preaches in the Southern Kingdom (Jer 1:1-8)
  - The returning exiles rededicate themselves to God (Neh 8:1-12)



## Prosiect 2

### Fel grŵp

Gan fyfyrrio ar y straeon rydych chi wedi eu hadrodd a'u darllen, ewch i'r afael â'r cwestiwn:

Beth mae'r straeon hyn, yn unigol a chyda'i gilydd, yn ei ddweud wrthon ni am Dduw ac am berthynas Duw â'i bobl?

## Myfyrdod

### Fel grŵp

1. Dylai pob un rannu yn gryno beth mae wedi'i ddysgu o'r sesiwn hwn.
2. Dywedwch sut mae'r sesiwn hwn wedi gwneud i chi deimlo.

## Gweddi a Pharatoi

1. Cynigiwch waith y sesiwn i Dduw mewn gweddi.
2. Cynlluniwch eich paratoad ar gyfer Sesiwn 2.



## Project 2

### **As a group**

Reflecting on the stories that you have told and read, address the question:

What do these stories, individually and together, tell us about God and God's relationship to God's people?

## Reflection

### **As a group**

1. Each share briefly what you have learned from this session.
2. Say how this session has made you feel.

## Prayer and Preparation

1. Offer the session's work to God in prayer.
2. Plan your preparation for Session 2.



# Stori'r Beibl: Y Testament Newydd

## Cyn y Sesiwn

---

1. Darllenwch y Cyflwyniad.
2. Edrychwch yn ofalus trwy'r rhestr o lyfrau sydd yn ffurfio'r Testament Newydd. Fel arfer byddwch yn gallu dod o hyd i un yn nhu blaen y beibl. Nodwch y llyfrau rydych chi'n eu hadnabod yn dda, pa rai rydych chi'n gwybod ychydig amdanyn nhw ac unrhyw rai nad ydych erioed wedi'u darllen.
3. Nodwch y straeon allweddol a adroddir yn y Testament Newydd.
4. Nodwch un darn o'r Testament Newydd sydd yn bwysig i chi.